# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-03-06 (p.2)

### Dyddiad: 9 Chwefror 2006
### Lleoliad:
### Teitl:Tlodi Tanwydd yng Nghymru

#### 1.0 Diben

1.1 Diben y papur hwn yw dweud wrth y Pwyllgor beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â thlodi tanwydd yn dilyn y drafodaeth leiafrifol ar 10 Ionawr 2006. Mae'r papur hefyd yn gosod allan gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad at y dyfodol i roi cymorth o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn dilyn y cyhoeddiad y bydd £10 miliwn yn ychwanegol yng nghyllideb Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer pensiynwyr dros y 2 flynedd nesaf.

#### 2.0 Crynodeb

2.1 Diben Cyfiawnder Cymdeithasol yw delio â thlodi - ac mae achosion tlodi yn niferus. Mae tlodi tanwydd yn un ffordd y mae tlodi yn ei amlygu ei hun yn ein cymunedau. Yn aml, mae'r sefyllfa hon yn effeithio ar aelodau mwyaf difreintiedig cymdeithas, sef yr oedrannus, teuluoedd sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau, y sâl a'r anabl.

2.2 Nid yn unig bod llawer o'r bobl hynny ar incwm isel, y maent hefyd yn byw mewn tai sydd heb eu cynnal a'u cadw'n ddigonol, heb wresogi digonol a heb eu diddosi.

2.3 Yn y drafodaeth leiafrifol ar dlodi tanwydd ar 10 Ionawr, cododd Aelodau'r Cynulliad nifer o faterion yn ymwneud â phris tanwydd, dangosyddion tlodi tanwydd a chanlyniadau'r arolwg Byw yng Nghymru. Yr oedd yr Aelodau hefyd yn bryderus ynglyn â nifer y marwolaethau oherwydd salwch a achoswyd gan dywydd oer yng Nghymru. Mae'r niferoedd hyn yn hysbys trwy'r ffigurau marwolaethau gaeafol gorniferus a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

2.4 Trafodwyd strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth y Cynulliad a chyfraniad polisïau fel y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES), canllawiau'r Ddeddf Cadwraeth Ynni Cartref a Safon Ansawdd Tai Cymru at ddileu tlodi tanwydd. Hefyd mynegwyd barn gan yr Aelodau ynglyn â sylwadau y gallai Llywodraeth y Cynulliad eu hanfon ymlaen at Lywodraeth y Deyrnas Unedig mewn meysydd lle nad oes gennym ni gyfrifoldeb uniongyrchol.

#### 3.0 Cefndir

## Dangosyddion Tlodi Tanwydd

3.1. Mae'r arolwg Byw yng Nghymru wedi cael ei gynnal gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Yr awgrymiadau cyntaf a ddaeth o'r arolwg oedd bod oddeutu 130,000 o aelwydydd yn dioddef o dlodi tanwydd yn 2004. Mae hyn yn cyfateb i 11% o aelwydydd Cymru. Mae safonau gwael gwresogi a diddosrwydd yn y tai hyn yn golygu nad yw'n bosibl i'r trigolion wresogi eu cartrefi i lefel sy'n dderbyniol.

3.2 Trwy fodelu i ddiweddaru'r ffigurau hyn ar gyfer 2005, er mwyn cynnwys y flwyddyn a aeth heibio ers cynnal yr arolwg eiddo, a gan gymryd i ystyriaeth y cynnydd a fu mewn incwm ac ym mhrisiau tanwydd, gwelir bod oddeutu 30,000 yn ychwaneg o aelwydydd wedi syrthio yn ôl i dlodi tanwydd.

3.3 Mae adroddiad llawn yn cael ei gomisiynu i ddadansoddi'r ystadegau tlodi tanwydd yn ôl categorïau, er enghraifft oedran a chyfansoddiad y teulu, oed yr adeilad a'r math o adeilad. Rwy'n disgwyl y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gwblhau yn ystod hanner cyntaf 2006-07.

3.4 Bydd yr adroddiad hwn yn modelu prisiau tanwydd yn y dyfodol er mwyn creu gwahanol senarios yn nodi nifer yr aelwydydd a allai fod mewn tlodi tanwydd erbyn 2010. Bydd y gwaith hefyd yn sefydlu dangosydd tlodi tanwydd tebyg i'r rhai sydd eisoes ar gael ar gyfer Lloegr a'r Alban.

## Strategaeth Tlodi Tanwydd Cymru

3.5 Deddf Tai Cynnes a Chadwraeth Ynni 2000 yw'r symbyliad i strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, "Deddf Tai Cynnes a Chadwraeth Ynni 2000: Ymrwymiad o ran Tlodi Tanwydd yng Nghymru".

3.6 Mae'r strategaeth yn datgan ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i darged Strategaeth Tlodi Tanwydd y Deyrnas Unedig, sef rhoi terfyn ar dlodi tanwydd mewn aelwydydd sydd mewn perygl o hynny erbyn 2010. Y mae hefyd yn anelu at roi terfyn ar dlodi tanwydd i deuluoedd sy'n byw mewn tai cymdeithasol, sydd ddim mor agored i'r perygl hwnnw, erbyn 2012. I'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, anelir hefyd at sicrhau na fydd unrhyw aelwyd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd ar ôl 2018.

## Marwolaethau gorniferus yn y gaeaf

3.7 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn rhoi cyllid am dair blynedd i'r Grwp newydd Rhwydwaith Pobl Hyn a Heneiddio (OPAN), sydd yn nodi bod atal marwolaethau gorniferus yn y gaeaf yn un o amcanion ei bortffolio ymchwil.

## Blaenoriaethu'r tlawd o ran tanwydd wrth weithredu Safon Ansawdd Tai Cymru

3.8 Roedd cyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru ym mis Mai 2002 yn gosod y safon gyffredin ar gyfer

cyflwr materol holl dai cymdeithasol presennol Cymru erbyn 2012.

3.9 Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn darparu bod defnyddio ynni i wresogi gofod a dwr yn cael ei amcangyfrif yn flynyddol gan ddefnyddio dull y Weithdrefn Asesu Safonol. Mae’r Safon yn nodi’n benodol y raddfa ofynnol y dylid ei chyrraedd. Mae’r Awdurdodau Lleol yn gosod blaenoriaethau er mwyn cyrraedd y Safon yn eu Cynlluniau Busnes.

3.10 Mae National Energy Action - Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, yn gweithio gyda’r Awdurdodau Lleol a’u partneriaethau i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Cynhesrwydd Fforddiadwy. Bydd y rhain, ymhlith pethau eraill, yn gosod allan sut y mae’r Awdurdodau Lleol yn bwriadu rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo aelwydydd sy’n dlawd o ran tanwydd.

Y Rheoliadau Rheoli Adeiladau

3.11 Mae’r Pwyllgor yn ymwybodol fy mod i wedi codi’r mater gyda Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog a Phrif Weinidog Cymru. Serch hynny, mae angen ystyried costau a manteision datganoli Rheoliadau Adeiladu yn erbyn blaenoriaethau eraill Llywodraeth y Cynulliad.

Y Marchnadoedd Trydan a Nwy

3.12 Nid yw marchnadoedd ynni a rheoleiddio cyflenwyr trydan a nwy yn faes sydd wedi ei ddatganoli. Mae’r maes yn dod o fewn cyfrifoldeb yr Adran Fasnach a Diwydiant (DTI) ac yn cael ei oruchwylio gan Ofgem, y corff rheoleiddio ynni. Gallai ehangu’r rhwydwaith nwy gael effaith gadarnhaol ar dlodi tanwydd mewn cymunedau difreintiedig cymwys sydd yn ymyl y rhwydwaith nwy ond heb fod yn rhan ohono. Serch hynny, hyd yma nid oes cyllid i’w gael gan y Llywodraeth ganolog ar gyfer prosiectau sy'n ehangu’r rhwydwaith nwy i eiddo domestig.

Tai sydd heb eu cysylltu â’r Rhwydwaith Nwy

3.13 Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth i ddau brosiect allweddol ehangu’r rhwydweithiau nwy ym mhentref Llai ac yn Stad Mount yn Aberdaugleddau. O dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref mae Llywodraeth y Cynulliad yn gallu cyllido rhai o’r costau o gysylltu cartrefi cymwys i’r nwy. Rydym wedi defnyddio’r pwer hwn i gysylltu cartrefi cymwys i’r rhwydwaith newydd ym mhentref Llai ac yn Stad Mount. Rwyf eisoes wedi adrodd i’r Pwyllgor fod Cyngor Sir Ddinbych yn trafod gyda chyflenwydd nwy er mwyn ehangu’r rhwydwaith nwy i Fodelwyddan.

3.14 Mae’r Adran Masnach a Diwydiant ar hyn o bryd yn adolygu’r rhaglenni sy’n cefnogi ynni adnewyddadwy yn y gymuned ac ar raddfa fach ledled y Deyrnas Unedig. Roedd yr ymgynghoriad diweddar ar Strategaeth Micro-gynhyrchu yn amlinellu bwriadau’r Llywodraeth i roi cefnogaeth yn y dyfodol o dan y Rhaglen Adeiladau Isel mewn Carbon. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu Cynllun Gweithredu Micro-gynhyrchu i ategu’r Strategaeth yn y gwanwyn 2006.

3.15 Mae’n debygol y bydd angen dull arall o weithredu er mwyn cynorthwyo aelwydydd sy’n agored i niwed i dderbyn ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo o dan y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy i weithredu eu prosiectau peilot i ‘chwilio i’r posibilrwydd o gynnwys ynni adnewyddadwy yn y polisïau a’r rhaglenni sydd gennym er mwyn delio â thlodi tanwydd ymhlith aelwydydd incwm isel sy’n agored i niwed. Yn enwedig y rhai sy’n methu cael budd trwy ffyrdd traddodiadol o wella’r sefyllfa.

3.16 Bydd y cynlluniau peilot hyn yn cael eu datblygu yn 2006 er mwyn targedu aelwydydd incwm isel sy’n agored i niwed, yn arbennig aelwydydd sydd ddim yn gallu manteisio ar y ffyrdd traddodiadol o wella’r sefyllfa. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda sefydliadau partneriaeth i ystyried sut y gellir cyflawni hyn. Bydd ymchwil blaenorol a wnaethpwyd gan y Gwasanaethau Ynni Cenedlaethol yn cael ei ddiweddaru i asesu addasrwydd, argaeledd a chost-effeithiolrwydd atebion posib, megis twymo dwr gyda gwres yr haul, pympiau dwr, micro-dyrbinau gwynt, cyfarpar ffotofoltaig a thanwydd coed. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn adeiladu ar brofiad y rhaglen SWISH (Dwr Solar mewn Tai Cymdeithasol).

3.17 Serch hynny, rhaid cofio mai’r ffyrdd mwyaf cost-effeithiol i leihau’r defnydd o ynni yw inswleiddio, gwell rheolaeth ar wres a golau, a goleuadau a chyfarpar ynni-effeithlon. Bydd micro-gynhyrchu yn debygol o fod yn ddefnyddiol lle na fydd modd cymryd camau felly, er enghraifft mewn eiddo gyda waliau solet heb fod ar y brif linell nwy.

Delio â thai ‘anodd eu gwresogi’

3.18 Mae llwyddiant HEES yn parhau ac yr ydym yn gwneud cynnydd tuag at ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru. Serch hynny, mae’n rhaid i mi gydnabod fod rhai aelwydydd lle mae tlodi tanwydd yn bodoli ond bod yr aelwydydd naill ai’n fwy anodd eu cyrraedd neu’n fwy costus i’w helpu na’r rhai sydd eisoes wedi cael cymorth o dan yr HEES. Yr wyf felly wedi parhau i werthuso’r opsiynau o gael dulliau eraill o wresogi er mwyn helpu’r tai sydd ddim ar y prif rwydwaith nwy i ddod allan o’u tlodi tanwydd.

3.19 Yn 2003 rhoddais gychwyn i Gynllun Peilot Gwres Canolog Ynni Solet i edrych pa mor effeithiol fyddai defnyddio tanwydd solet fel ffynhonnell ddichonadwy a chost-effeithiol i dwymo’r tai ‘anodd eu gwresogi’ sydd allan o gyrraedd y cyflenwad nwy.

3.20 Mae’r cynllun peilot wedi bod ar gael i 29 o dai gymwys HEES a Mwy ym mhob rhan o Gymru. Cynorthwyodd Glofa’r Twr a’r Gymdeithas Tanwydd Solat yn y peilot trwy roi cymorth a chyngor technegol. Mae’r gwaith o osod y cyfarpar yn y tai wedi cael ei gwblhau. Ar ôl i’r tai fynd trwy aeaf llawn gyda’r system yn gweithio (gaeaf 2005/06) byddwn yn gwneud arolwg cwsmeriaid. Bydd hyn yn fy ngalluogi i ddod i farn ynglyn ag effeithiolrwydd y peilot ac addasrwydd a chostau rhedeg y math yma o system i ymgeiswyr HEES.

3.21 Yr wyf hefyd wedi ystyried canlyniad y peilot a oedd yn edrych ar y posibilrwydd o osod systemau gwres canolog sy’n cael eu tanio ag oel o dan HEES. Mae hyn yn fater o bwys arbennig i bobl sydd

mewn tlodi tanwydd ac sydd heb fynediad at gyflenwad prifion nwy. Roedd yr adborth ynglyn â'r cynllun yn gadarnhaol ar y cyfan. Ond mae cyfartaledd y gost o osod system gwres canolog sy'n cael ei chynnau ag olew o dan y cynllun peilot presennol yn fwy na'r mwyafswm grant HEES sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddaf yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno'r mesur hwn o dan y cynllun HEES yn ystod 2006-07, a byddaf yn ystyried pa lefel o grant a fyddai'n briodol.

3.22 Ar ben hyn yr wyf wedi edrych ar y posibilrwydd o ddod a nwy hylif petrolewm (LPG) o dan y Cynllun. Yn anffodus roedd asesiad y Gwasanaethau Ynni Cenedlaethol o wahanol ddulliau a allai fod yn addas ar gyfer HEES yn cynghori y byddai costau rhedeg LPG, hyd yn oed ar lefel gymunedol, yn llawer uwch nag y gellid ei ystyried yn fforddiadwy, hyd yn oed pe byddai lefel yr ynysu (diddosi) yn cael ei godi yn sylweddol.

Taliadau Tanwydd y Gaeaf

3.23 Cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw Taliadau Tanwydd Gaeaf. Maent yn cael eu talu i bawb dros 60 oed beth bynnag fo'u statws o ran tlodi tanwydd. Mae pobl sâl ac anabl, a theuluoedd sydd â phlant bach, yn cael eu cynnwys o fewn y dosbarth sy'n agored i niwed o dan yr Ymrwymiad Tlodi Tanwydd, ond nid ydynt yn gymwys i dderbyn Taliadau Tanwydd Gaeaf.

3.24 Rhoddir Taliadau Tywydd Oer i bobl agored i niwed yn dilyn cyfnodau o dywydd oer. Mae'n cael ei dalu i bobl sydd ar Gredyd Pensiwn. Mae pobl sydd ar gymhorthdal incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith, pobl dros 60 oed neu bobl â salwch neu anabledd tymor hir hefyd yn gymwys. Felly hefyd pobl sy'n derbyn y budd-daliadau hyn ac sydd â phlentyn dan 5 oed neu sy'n gyfrifol am blentyn anabl.

3.25 Barn yr Adran Gwaith a Phensiynau yw bod cymorth eisoes ar gael i bobl anabl trwy fudd-daliadau anabledd, a thrwy'r premiwm anabledd yn y Cymhorthdal Incwm. Mae'r rhain eisoes yn cydnabod y costau ychwanegol - gan gynnwys gwresogi - sydd gan bobl anabl. Rwy'n deall nad oes gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ddim bwriad i ehangu'r cynllun Taliad Tanwydd Gaeaf i gynnwys pobl dan 60 oed.

Gwneud y gorau o incwm y tlawd o ran tanwydd

3.26 Mae sefydliadau megis y Gwasanaeth Pensiwn a Gofal a Thrwsio Cymru yn gweithio gydag aelwydydd i sicrhau bod eu hincwm mor fawr ag sy'n bosib trwy eu hannog i gymryd y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

3.27 Yn ystod 2004-05 cyflwynais hefyd Wiriad Hawl i Fudd-daliadau i ymgeiswyr HEES. Mae'r gwasanaeth yma yn nodi budd-daliadau ychwanegol y mae gan ymgeiswyr HEES hawl iddynt. Mae ymgeiswyr y Cynllun yn cael gwybod a ddylent hawlio budd-daliad a allai roi hawl iddynt dderbyn cymorth dan y Cynllun. Mewn sawl achos, bydd llwyddiant ymgeisydd i gael budd-daliadau ychwanegol hefyd yn cynyddu incwm yr aelwyd – ffactor arall sy'n helpu aelwydydd i godi o dlodi tanwydd.

3.28 Rhwng mis Awst 2004 a mis Mawrth 2005 cwblhawyd 1,300 o Wiriadau Hawl i Fudd-daliad. Nodwyd bod 423 o aelwydydd yn gymwys i dderbyn budd-daliadau ychwanegol gwerth dros £64 y mis ar gyfartaledd. Yn y 15 mis cyntaf daeth y Cynllun o hyd i £1.5 miliwn o fudd-daliadau ychwanegol i aelwydydd yng Nghymru.

3.29 Yr wyf hefyd wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd ymarferiad mapio yn digwydd yn 2006 i edrych yn fanwl pa sefydliadau eraill sy’n rhoi cyngor i berchenogion tai i gael eu budd-daliadau, gyda golwg ar sicrhau y gwneir y gorau o bob cyfle i gynyddu incwm.

Deddf Cadwraeth Ynni’r Cartref

3.30 Mae Deddf Cadwraeth Ynni’r Cartref (HECA) yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn darparu strategaethau a fydd yn arwain at welliannau sylweddol yn effeithlonrwydd ynni domestig. Gosodwyd targedau gwelliant o 30% yn effeithlonrwydd ynni domestig i Awdurdodau Lleol rhwng 1 Ebrill 1997 a 31 Mawrth 2007. Mynnir ymhellach bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol a’u cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad.

3.31 Er mwyn codi proffil y Ddeddf Cadwraeth Ynni’r Cartref o fewn Awdurdodau Lleol, dewiswyd effeithlonrwydd ynni fel un allan o wyth mesur a ragnodwyd o fewn cytundebau Polisi y cytunwyd arnynt yn 2004 rhwng Llywodraeth y Cynulliad a phob awdurdod lleol yng Nghymru.

3.32 O dan Gytundeb Polisi mae Awdurdodau Lleol yn ymrwymo i gyflawni targedau penodedig i wella gwasanaethau ac, yn gyfnewid, derbyn grant cymell perfformiad heb ei chlustnodi. Mae pob un o’r 22 awdurdod yng Nghymru wedi cytuno gyda Llywodraeth y Cynulliad ar darged o 12% o welliant mewn effeithlonrwydd ynni yn y cartref o 1 Ebrill 1997 hyd at 31 Mawrth 2007. Mae cyfradd y cynnydd presennol yn dangos y bu gwelliant cyffredinol o 5.65% dros saith mlynedd gyntaf y Ddeddf. Mae’r Cytundeb Polisi yn anelu at ddyblu’r lefel bresennol o weithgarwch.

3.33 Bydd y 12% yn cael ei fesur trwy ddefnyddio proses a fframwaith HECA sydd eisoes yn eu lle ym mhob awdurdod lleol. Gan hynny bydd cynhyrchu adroddiad HECA blynyddol wedi cael ei gysylltu’n glir gyda’r grant cymell perfformiad. Bydd adroddiad ynglyn â chynnydd HECA yn ystod blwyddyn gyntaf y broses o Gytundeb Polisi yn cael ei roi o flaen y Pwyllgor yn nhymor yr haf.

3.34 Nid yw Deddf Cadwraeth Ynni’r Cartref yn darparu ar gyfer unrhyw gosb yn erbyn Awdurdodau Lleol am beidio â darparu adroddiadau cynnydd HECA. Wedi ymgynghori â swyddogion yng Ngweithrediaeth yr Alban, rwy'n deall nad yw’r Weithrediaeth yn ystyried cymryd camau o’r fath yn erbyn Awdurdodau Lleol yn yr Alban.

Y Cynllun Effeithlonrwydd Tanwydd Cartref (HEES)

3.35 Er mwyn helpu i ddelio â thlodi fe gymerodd Llywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb yn 2000 am y

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) yng Nghymru. Mae’r Cynllun yn ei bumed flwyddyn erbyn hyn ac yn parhau i ddangos ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i oresgyn tlodi tanwydd tra’n cynorthwyo rhai o’r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

3.36 Ers lansio’r Cynllun mae oddeutu £48 miliwn wedi cael ei wario hyd yma ar fesurau i geisio lliniaru tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod dros 145,000 o fesurau effeithlonrwydd ynni, fel gwres canolog, a diddosi llofftydd a waliau wedi cael eu darparu mewn mwy na 57,000 o dai ym mhob rhan o Gymru.

Adnoddau ar gyfer HEES

3.37 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi y bydd £10 miliwn arall ar gael ar gyfer y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yng Nghymru am y ddwy flynedd nesaf (2006 – 2008). Anelir yr arian ychwanegol hwn at helpu pensiynwyr i gadw’n gynnes ac yn ddiogel yn eu cartrefi. Bydd hyn yn codi’r gyllideb ar gyfer HEES i £19.6 miliwn ar gyfer pob un o’r ddwy flynedd yma.

3.38 Bydd yr arian ychwanegol yn caniatáu i’r Cynllun HEES ganolbwyntio mwy ar aelwydydd pensiynwyr, sy’n cynrychioli rhai o’r aelwydydd mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

3.39 Mae’r adnoddau ychwanegol hyn yng Nghymru wedi cael eu croesawu yn eang gan ein cyrff partneriaeth yng Nghymru. Mae’r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn amcangyfrif y gallai pensiynwyr yng Nghymru arbed hyd at £250 oddi ar eu biliau ynni blynyddol trwy fanteisio ar yr arian ychwanegol hwn.

Dyfodol HEES

3.40 Fel yr wyf wedi dweud uchod, bydd yn rhaid i bwyslais HEES yng Nghymru ganolbwyntio mwy ar gartrefi pensiynwyr a phobl sy’n dlawd ond yn anodd eu cyrraedd. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod HEES yng Nghymru:

Yn parhau i gynnig Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau i bob ymgeisydd am HEES;

Yn cynyddu maint y grant sydd ar gael o 25% i 50% (hyd at fwyafswm o £375) i bobl dros 60 oed sydd ddim yn derbyn budd-dal pasbort ar gyfer y grant HEES a Mwy, ond sydd yn berchen ar eu tai eu hunain neu sy’n dal prydles o fwy na 21 mlynedd ac sydd ddim yn derbyn unrhyw fudd-dal;

Yn cynnig mesurau diddosi, gwell diogelwch a gwres canolog i ddeiliaid tai sy’n bobl dros 80 oed. Bydd hyn yn cael ei gynnig heb gymryd amgylchiadau ariannol i ystyriaeth gan gydnabod bod y grwp hwn yn arbennig o agored i niwed.

Yn cynnig mwyafswm grant sy’n ddigonol i ofalu bod aelwydydd yn gallu derbyn y cymorth llawn;

Yn darparu gwahanol systemau gwresogi cost effeithiol pan nad oes prif gyflenwadau nwy ar gael;

3.41 Mae nifer o ystyriaethau eraill fydd yn cael sylw gennyf, ar ben y rhai a amlinellir uchod ac a fydd, rwy'n gobeithio, yn gwella'r cynllun HEES yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

Dulliau eraill o ddiddosi mewnol ac allanol mewn tai sydd â waliau solat;

Effeithiolrwydd gwell cyfarpar rheoli gwres canolog a fyddai'n fwy addas ar gyfer cartrefi pobl hyn sy'n anabl;

Darparu cefnogaeth i gynnig oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot i gynnal cynllun peilot i helpu aelwydydd tlawd o ran tanwydd sydd ddim yn gymwys i dderbyn HEES.

## 4.0 Ystyriaeth

4.1 Y mae'n fwriad gennyf ymgynghori'n eang ynglyn â'r newidiadau a gynigir i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Cartref er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r Cynllun yn effeithiol, yn rhoi gwerth am arian ac yn helpu i gynorthwyo, yn fwy effeithiol, pensiynwyr a phobl dlawd mewn ynni sy'n anodd eu cyrraedd. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor yn y man ar ffurf Deddfwriaeth Eilaidd o dan y Rheoliadau Cynllun Effeithiolrwydd Ynni Cartref.

4.2 Y mae'n gallu i dargedu tlodi tanwydd yn effeithiol yn fater y mae'n rhaid i ni roi ein sylw iddo. Rwy'n cydnabod yn llwyr fod rhai aelwydydd naill ai yn fwy anodd eu cyrraedd neu'n fwy costus i'w helpu na'r rhai yr ydym wedi eu helpu o'r blaen.

4.3 Rwy'n siwr y bydd y Pwyllgor yn cytuno gyda mi y bydd y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud mewn perthynas â "Byw yng Nghymru" yn rhoi gwybodaeth gadarn i ni ynglyn â maint y tlodi tanwydd ar hyd a lled Cymru. Bydd yn ein helpu i ddelio â rhai o'r materion hyn trwy ganiatáu i ni dargedu adnoddau yn fwy effeithiol ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

4.4 Ar ben hyn, os edrychwch ar y parhad yn llwyddiant y Cynllun HEES yng Nghymru fe welwch bod ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i wneud gwahaniaeth heddiw ac yn y dyfodol i fywydau'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymunedau ym mhob rhan o Gymru.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r adroddiad hwn ar hyn o bryd.

## 6.0 Themâu Trawsbynciol

6.1 Mae'r polisi tlodi tanwydd yn un sy'n drawsbynciol o ran ei natur, yn arbennig mewn iechyd, gofal cymdeithasol, tai a datblygu economaidd. Bydd cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy hefyd yn cael eu

hystyried wrth ddatblygu cynhaliaeth yn y dyfodol i aelwydydd tlawd mewn ynni o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref.

## 7.0 Camau Gweithredu i'r Pwyllgor

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a'r gweithredu pellach a argymhellir.

Enw: Mrs Edwina Hart
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Swyddog Cyswllt: Mr Francois Samuel, Y Gyfarwyddiaeth Dai
Ffôn: 029 2082 6903